Y Pwyllgor Busnes
—
Business Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
Senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

19 Medi 2025

Annwyl Andrew,

**Y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)**

Yn ei gyfarfod yr wythnos hon, ystyriodd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ar ei hamserlen arfaethedig ar gyfer y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru).

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cynnig yn flaenorol y dylid cyfeirio'r Bil hwn at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar gyfer craffu Cyfnod 1.

Gwnaethom ystyried yr amserlen ddiwygiedig ar gyfer gwaith craffu ochr yn ochr â'r amserlen ddangosol a ddarparwyd gan y Llywodraeth cyn gwyliau'r haf, ynghyd â'ch llythyr dyddiedig 10 Medi 2025. Mynegodd aelodau'r Pwyllgor Busnes bryderon ynghylch yr effaith y byddai'r amserlen fyrrach a gynigiwyd ar gyfer Cyfnod 1 yn ei chael ar waith craffu'r pwyllgor, a nodwyd y safbwyntiau a fynegwyd yn eich llythyr ynghylch yr anawsterau a achosir gan yr amserlen wreiddiol.

Dywedodd y Trefnydd fod y broses o ddatblygu'r Bil wedi cymryd yn hirach na'r disgwyl a chadarnhaodd y bydd y Llywodraeth yn darparu fersiwn ddrafft o'r Bil i'ch Pwyllgor a rhanddeiliaid perthnasol bedair wythnos cyn ei gyflwyno, yn unol â'r dull a ddefnyddiwyd yn ddiweddar ar gyfer Biliau eraill. Cytunodd y Trefnydd hefyd i roi adborth ar y pryderon a fynegwyd.

Serch hynny, rydym yn cydnabod y cyfyngiadau pellach sydd wedi'u cynnwys yn yr amserlen hon a'r heriau fydd yn gysylltiedig â hyn.

Rwy'n amgáu papur y Gweinidog sy'n cynnwys yr amserlen arfaethedig ar gyfer y Bil i chi ei ystyried. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i ni gan amlinellu eich barn ar yr amserlen unwaith y bydd y Pwyllgor ETRA wedi gallu ystyried hyn.

Yn gywir,


**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**

Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes


Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.